**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**The National Assembly for Wales**

Parc Cathays / Cathays Park

Caerdydd / Cardiff

CF10 3NQ

Dyddiad / Date 16 Mawrth 2001

Annwyl Gydweithiwr

**DIWYGIADAU I REOLIADAU CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (SWYDDOGAETHAU) 2000 AC I ORCHYMYN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (SWYDDOGAETHAU YCHWANEGOL) 2000**

Hwyrach eich bod yn cofio i'r Swyddfa Gymreig ym 1999 ryddhau dogfen ymgynghorol ar drefniadau gweinyddol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Yn deillio o hyn, mae rheoliadau sy'n ymwneud â chofrestru athrawon *(Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000)*, a gorchymyn yn cwmpasu'r wybodaeth sydd i'w chadw ar y rhai nad ydynt ar y gofrestr *(Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000)* bellach mewn grym ac mae ymgynghoriad ar swyddogaeth ddisgyblu'r Cyngor newydd ddod i ben.

Pan gafodd y rheoliadau a'r gorchymyn eu cyflwyno, nid oedd yn bosibl cynnwys y mathau o orchmynion disgyblu y gellir eu rhyddhau gan y Cyngor, gan nad oedd yr ymgynghoriad ar y swyddogaeth ddisgyblu wedi'i gwblhau.

Nawr bod y broses ymgynghori wedi'i chwblhau, hoffem ddiwygio'r rheoliadau a'r gorchymyn i alluogi i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gofnodi amodau unrhyw orchymyn disgyblu y mae'n ei orfodi a chadw'r manylion ar y gofrestr. Amgaeaf gopïau drafft o

i. Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau)(Diwygio) 2001, a;
ii. Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol)(Diwygio) 2001.

**Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001**

C. A ydych yn cytuno â'r ychwanegiad at y Rheoliadau sy'n galluogi'r Cyngor i gofnodi amodau unrhyw orchymyn disgyblu y mae'n ei orfodi ar y gofrestr?

**Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001.**

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru hefyd yn cadw cofnod o athrawon ac eraill nad ydynt wedi neu na ellir, am amrywiaeth o resymau, eu cofrestru. Mae'r wybodaeth hon yn adlewyrchu'r hyn a gofnodir ar y gofrestr ac mae'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r Cyngor gofrestru athrawon yn gyflym. Rydym yn cynnig y dylid hefyd cadw'r wybodaeth ychwanegol a ddisgrifir uchod ar gyfer y rheiny nad ydynt ar y gofrestr.

C. A ydych yn cytuno â'r ychwanegiadau at y cofnod y mae'r Cyngor yn ei gadw o athrawon ac eraill nad ydynt ar y gofrestr?

**Atebion**

A fyddech cystal ag anfon eich atebion erbyn 11 Mai at:

Gareth Kedward

Uned Gydlynu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Yr Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth 2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn 029 2082 3138

Ffacs 029 2092 5823

GTCW.enquiries@wales.gsi.gov.uk

**Copïau Ychwanegol**

Gellir cael gafael ar gopïau drafft o ddiwygiadau'r rheoliadau a'r gorchymyn gan Gareth Kedward yn y cyfeiriad uchod ac hefyd yng ngwefan y Cynulliad yn www.cymru.gov.uk. Gellir cael copïau o'r Rheoliadau a'r Gorchymyn gwreiddiol ar yr un safle.

Os hoffech drafod cynnwys y rheoliadau, cysylltwch â Cath Dixon neu fi yn yr un cyfeiriad ac ar yr un rhif ffacs ag â nodir uchod. Rhif ffôn Cath yw 029 2082 3039 a'm rhif i yw 029 2082 6116.

Yn gywir

Sue Lovell

Pennaeth Uned Gydlynu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

| | |
|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | |
| **2001 Rhif (Cy. )** | |
| **ADDYSG, CYMRU** | |
| **Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001** | |
| | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)* | |
| | |
| Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000. | |
| Maent yn gwneud darpariaethau i'r Gofrestr o athrawon ac athrawesau sy'n cael ei chadw gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gofnodi telerau gorchmynion disgyblu sy'n cael eu gwneud gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Mae'r ceryddon sy'n cael eu rhoi gan y naill neu'r llall o'r Cynghorau hyn i aros ar y Gofrestr am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y mae'r cerydd yn cael ei roi. | |
| Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth hefyd i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo i gyflogwyr ar gais. | |

**OFFERYNNAU**

**STATUDOL**

**2001 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001**

*Wedi'u gwneud 2001*

*Yn dod i rym 2001*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(1), 4(2)(d) a (j), 4(3) a 14 (3) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**(a)** ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**, ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar [ 2001].

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**

**2.** Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**(c)** yn cael eu diwygio –

(a) drwy fewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff (2) o reoliad 6:

"(3) Mae Rhan II o Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth i wybodaeth benodol sydd wedi'i chofnodi ar y Gofrestr gael ei dileu ar ôl cyfnod amser penodedig."

(b) drwy fewnosod pennawd newydd ar ôl "Rheoliad 6" yn Atodlen 1:

"Rhan I"

(c) drwy fewnosod y paragraffau canlynol ar ôl paragraff 22 o Atodlen 1 :

**"22A.** Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd mewn grym am y tro, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

**22B.** Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.";

(ch) drwy ychwanegu'r Rhan ganlynol ar ddiwedd Atodlen 1:

"RHAN II

**Y cyfnod amser y mae materion i'w dileu o'r Gofrestr ar ei ddiwedd**

Mae telerau ceryddon a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr i'w dileu o'r Gofrestr ar ôl cyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y rhoddwyd y cerydd.";

(d) drwy fewnosod y paragraffau canlynol ar ôl paragraff 13 o Atodlen 2:

**"13A.** Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd am y tro mewn grym, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

**13B**. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ac a gofndowyd ar y gofrestr."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(ch)**.

[ ] 2001

Llywydd y Cynulliad

Cenedlaethol

(a) 1998 p.30. Mae’r darpariaethau perthnasol yn gymwys i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o’r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 43(1).

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672.

(c) O.S. 2000/1979 (Cy.140).

d. 1998 c.38.

| | |
|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | |
| **2001 Rhif (Cy. )** | |
| **ADDYSG, CYMRU** | |
| **Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001** | |
| | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn.)* | |
| | |

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Mae'n darparu ar gyfer cofnodi unrhyw orchmynion disgyblu sy'n cael eu gwneud yn erbyn athro neu athrawes gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Mae ceryddon sy'n cael eu rhoi gan y naill neu'r llall o'r Cynghorau i'w cofnodi yn erbyn enw'r athro neu'r athrawes am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad pan fydd y cerydd yn cael ei roi.

**OFFERYNNAU**

**STATUDOL**

**2001 Rhif (Cy. )**

**ADDYSG, CYMRU**

**Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001**

*Wedi'i wneud 2001*

*Yn dod i rym 2001*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998**(a)** ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod o'r farn y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o ystyried eu hamcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn ac ar ôl cyflawni unrhyw ymgynghori y mae'n ymddangos iddo ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enw a chychwyn**

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001 a daw i rym ar [………… 2001].

**Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000**

**2.** Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000**(c)** yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn –

(a) yn erthygl 3, ar ôl paragraff (3), mewnosodir –

"(4) Mae Rhan **III** o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth i wybodaeth benodol sydd wedi’i chynnwys yn y cofnodion a grybwyllwyd ym mharagraff (1) gael ei dileu ar ôl cyfnod amser penodedig.";

(b) yn Rhan **II** o’r Atodlen, ar ôl paragraff 23, mewnosodir –

"**23A**. Telerau unrhyw orchymyn disgyblu, heblaw cerydd, sydd am y tro mewn grym, a wnaed gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

**23B**. Telerau unrhyw gerydd a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr."; a

(c) ar ddiwedd Rhan **II** o’r Atodlen i’r Gorchymyn hwn ychwanegwch y Rhan ganlynol –

"RHAN **III**

**Y cyfnod amser y dylid dileu gwybodaeth o’r cofnodion ar ei ddiwedd**

Mae telerau ceryddon a roddwyd gan y Cyngor neu gan Gyngor Addysgol Cyffredinol Lloegr i’w dileu o’r cofnodion ar ôl cyfnod o ddwy flynedd o’r dyddiad y rhoddwyd y cerydd."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 **(ch)**.

[ ] 2001

| | |
|---|---|
| Llywydd y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | |

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1998 c.30. The relevant provisions apply in relation to the General Teaching Council for Wales by virtue of sections 8 and 9 of the Act and the General Teaching Council for Wales Order 1998 (S.I. 1998/2911).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I 1999/672).

(c) S.I. 2000/1941 (W.139).

(d) 1998 c.38.